

Presennol o bell

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

S Aspey
RM James
AJ Williams

S J Bletsoe
W J Kendall
R Williams

N Clarke
M Lewis

D M Hughes
J Llewellyn-Hopkins

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim.

Gwahoddedigion:

Y Cynghorydd Jane Gebbie

Claire Marchant
Kelvin Barlow
David Wright
Richard Thomas
Joe Boyle
Sarah Tripp

Linda Woodley

Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Pennaeth Dros Dro Gofal Cymdeithasol I Blant
Swyddog Cynllunio Strategol a Chomisiynu
Swyddog Comisiynu a Datblygu Gwasanaethau
Rheolwr Canmoliaeth a Datrys Cwynion

Bywydau a Rennir – Cyngor Bro Morganwg

Swyddogion:

Jessica Mclellan
Nimi Chandrasena

Swyddog Craffu
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Aelodau a Maerol

Datganiadau o Fuddiannau

RM James – Personol – Gwraig yw Cadeirydd Panel Maethu Pen-y-bont ar Ogwr

J Llewellyn-Hopkins – Personol – Aelod agos o'r teulu yn derbyn cefnogaeth gan wasanaethau dementia'r Cyngor

W J Kendall – Personol - Aelodau agos o'r teulu yn cael eu cyflogi gan Gofal a Thrwsio

75. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles dyddiedig 8 Mehefin a 9 Gorffennaf 2026 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Ggwneud y Penderfyniad	10 Medi 2026

76. Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2025-26 Drafft

Y Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet a Swyddogion Uwch, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol ynghyd â chais am wybodaeth ychwanegol. Argymhellion 1. Mynegodd y Pwyllgor farn fod angen mwy o eglurder ynghylch Llywodraethu ac Atebolrwydd mewn perthynas â rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a'r broses o fewn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles sy'n dangos y cwestiynau a'r atebion trawsbleidiol ar draws y pwyllgorau. Yn ogystal, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyfeirio at y Gweithgorau Cyllideb y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles. 2. Argymhellodd y Pwyllgor fod Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yn y blynyddoedd i ddod yn cynnwys: a. Atodiad technegol sy'n dangos y dystiolaeth ar gyfer datganiadau a wnaed yn yr adroddiad,
------------------------	---

	e.e. dolen i'r arolwg staff ar gyfer 'staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'; a b. chyfeiriad at waith gyda Gofal a Thrwsio a sut mae addasiadau a mesurau ataliol wedi cyfrannu at lai o gynnydd mewn angen. 3. Argymhellodd y Pwyllgor fod llythyr yn cael ei ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn mynegi eu pryderon ynglŷn â'r ddibyniaeth ar gyllid grant i ariannu gwasanaethau craidd, y risg o golli'r gwasanaethau hyn pe bai'r cyllid grant yn cael ei derfynu ac y dylid ariannu'r holl bolisiâu newydd yn llawn. 4. Cafodd y Pwyllgor wybod am y cynnwys defnyddiol sydd ar gael ar dudalen we recriwtio Gofal Cymdeithasol y Cyngor, gofynnodd am ddolen ac argymhellodd fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio llwyfannau Aelodau i hyrwyddo cyfleoedd a manteision gweithio i Ofal Cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn well. Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol 5. Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o adroddiad(au) arolygu diweddar Carchar Parc Ei Fawrhydi. 6. Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth cynyddol i ofalwyr di-dâl. 7. Gofynnodd y Pwyllgor am ganran y staff a gwblhaodd yr arolwg staff y cyfeirir ato yn yr adroddiad. 8. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch gwasanaethau craidd a allai gael eu colli pe bai cyllid grant yn dod i ben a gofynnodd am gopi o'r fideo a gynhyrchwyd gan Fforwm Arweinwyr Trydydd Sector Merthyr Tudful, '<i>Oherwydd nad oeddem yno...</i>' sy'n dangos beth allai ddigwydd pe na bai'r gefnogaeth y dibynnwyd arni ar gael mwyach. 9. Gofynnodd y Pwyllgor am gyfradd manteisio ar y cynnig gweithredol o eiriolaeth plant ac oedolion.
Dyddiad Ggwneud y Penderfyniad	10 Medi 2026

77. Adroddiad Blynyddol ar Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2025-26

Y Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet a Swyddogion Uwch, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol. 10. Trafododd y Pwyllgor effaith deallusrwydd artiffisial ar hyd a chymhlethdod y cwynion a dderbyniwyd a'r amser a gymerwyd i ddadansoddi ac ymateb iddynt ac argymhellodd fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellid defnyddio deallusrwydd artiffisial i gynorthwyo ymdrin â chwynion tra'n dal i gadw'r dull personol y cyfeirir ato gan y Rheolwr Canmoliaethau a Datrys Chwynion.
Dyddiad Ggwneud y Penderfyniad	10 Medi 2026

78. Bywydau a Rennir

Y Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet, Uwch-swyyddogion a gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a'r cais am wybodaeth ychwanegol canlynol. Argymhelliad 11. Croesawodd y Pwyllgor y dull arfaethedig o ddim niweidio ar gyfer Gofalwyr Bywydau a Rennir a nodir yn opsiwn 4 yn yr adroddiad, ond mynegodd bryder ynghylch y cyfraddau uwch arfaethedig o Gyfraniadau Unigolion ac argymhellodd fod y Cabinet yn ystyried bod dull dim niweidio hefyd yn cael ei gymhwyso i Gyfraniadau Unigolion. Ceisiad am Wybodaeth Ychwanegol 12. Gofynnodd y Pwyllgor am ddolenni i'r eitem a phennod ITV News o Sharp End ynglŷn â'r Cynllun Bywydau a Rennir.
Dyddiad Ggwneud y Penderfyniad	10 Medi 2026

79. Diweddariad am y Flaenraglen Waith

Y Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys y canlynol, wedi nodi cynnwys adroddiad Chwarter 4/Diwedd Blwyddyn 2025-26 Perfformiad Corfforaethol, Chwarter 4 2025-26 y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol a'r Traciwr Rheoleiddiol a ddiweddarwyd ar gyfer Chwarter 4 2025-26 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn ac roedd yn rhoi sylw i'r dangosfwrdd a'r traciwr wrth ystyried y Flaenraglen Waith, wedi nodi'y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nodi y byddai'r Flaenraglen Waith fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth: a. adroddiad ynglŷn â'r ystod o gymorth a gwasanaethau sydd ar gael i breswylwyr â dementia a'u gofalwyr a'u teuluoedd.
Dyddiad Ggwneud y Penderfyniad	10 Medi 2026

80. Materion Brys

Y Penderfyniad a Wnaed	Dim.
Dyddiad Ggwneud y Penderfyniad	10 Medi 2026

Er mwyn gwyllo trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) yma os gwelwch yn dda

Terfynwyd y cyfarfod yn 14:13.